**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2024. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

12 Tachwedd 2024

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") yn darparu bod rhai categorïau penodol o bersonau o dramor yn gymwys neu'n anghymwys i gael dyraniad o lety tai a/neu gymorth tai (yn y bôn, cymorth ar gyfer digartrefedd).

Mae Rheoliadau 2014 i gael eu diwygio gan Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2024 ("y Rheoliadau hyn") i estyn cymhwystra i gael dyraniad o lety tai a chymorth tai a ddarperir gan awdurdodau lleol i bobl sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo sy'n ddioddefwyr cefnu ar briodas trawswladol (TMA) ac i bobl sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo y byddai amod heb ddibynnu ar gronfeydd cyhoeddus (NRPF) yn gymwys fel arfer i'w statws mewnfudo ond mae'r amod hwnnw wedi ei ddileu gan y Swyddfa Gartref.

Mae Rheoliadau 2014 hefyd i gael eu diwygio i hepgor cyfeiriadau at Reoliadau Ymaelodaeth Croatia (Mewnfudo ac Awdurdodi Gweithwyr) 2013 (O.S. 2013/1460) sy'n ddiangen bellach gan fod y cyfnod ymaelodi (y cyfnod sy'n dechrau â 1 Gorffennaf 2013 ac sy'n dod i ben â 30 Mehefin 2018) wedi dod i ben.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

### 3. Cefndir deddfwriaethol

Mae Rhan 6 o Ddeddf Tai 1996 ac Atodlen 2 i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi dosbarthau o bersonau o dramor sy'n gymwys i gael dyraniad o lety tai a chymorth tai. Mae rheoliadau 2, 3, 4, 5 a 6 o Reoliadau 2014 i gael eu diwygio.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

### 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Bydd y Rheoliadau hyn yn gwneud dioddefwyr TMA yn gymwys i gael dyraniad o lety tai a chymorth digartrefedd yng Nghymru. Mae TMA yn fath o gam-drin domestig sy'n cynnwys ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol. Mae'n cyfeirio at arfer pan fo'r partner noddi neu aelodau o'i deulu yn cefnu ar briod sy'n ddibynnol ar fisa neu'n ei adael dramor, fel arfer heb unrhyw adnoddau ariannol na dogfennau mewnfudo, gyda'r nod o'i atal rhag dychwelyd i'r DU.

Bydd y Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud yr unigolion hynny y mae eu hamod NRPF wedi ei ddileu gan y Swyddfa Gartref yn gymwys i gael dyraniad o lety tai a chymorth tai yng Nghymru.

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014 sy’n penderfynu pa bersonau sy’n gymwys i gael dyraniad o lety tai o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996 ac i gael cymorth tai o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Yn dilyn dyfarniad gan yr Uchel Lys ym mis Hydref 2022, deddfodd Llywodraeth y DU i sefydlu llwybr fisa newydd i ddioddefwyr TMA ac i bobl sy’n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo y byddai ganddynt NRPF fel arfer. Daeth i rym ar 31 Ionawr 2024. Mae’r Rheoliadau hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod dioddefwyr TMA a phobl sy’n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo y byddai ganddynt NRPF fel arfer sy’n cyrraedd o dan y llwybr newydd yn gymwys i gael dyraniad o lety tai a chymorth digartrefedd.

Yn dilyn her gyfreithiol lwyddiannus ar wahân, mae’r Swyddfa Gartref hefyd wedi diweddaru canllawiau gweithwyr achos i adlewyrchu’r ffaith bod disgresiwn bellach i ddileu’r amod ‘NRPF’ ar gyfer personau ar unrhyw lwybr mewnfudo o dan amgylchiadau penodol (megis amddifadedd, lles plentyn perthnasol neu amgylchiadau ariannol eithriadol).

Rydym hefyd yn dileu darpariaethau diangen sy’n cyfeirio at Reoliadau Ymaelodaeth Croatia (Mewnfudo ac Awdurdodi Gweithwyr) 2013, gan fod y cyfnod ymaelodi wedi dod i ben.

Mae rheoliadau 3, 5 a 7 yn hepgor cyfeiriadau at Reoliadau Ymaelodaeth Croatia (Mewnfudo ac Awdurdodi Gweithwyr) 2013 (O.S. 2013/1460) sy’n ddiangen bellach gan fod y cyfnod ymaelodi (y cyfnod sy’n dechrau â 1 Gorffennaf 2013 ac sy’n dod i ben â 30 Mehefin 2018) wedi dod i ben.

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau 2014 sy’n ymwneud â chymhwystra personau sy’n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo i gael dyraniad o lety tai o dan Ddeddf 1996. Mae’n rhagnodi dau ddosbarth ychwanegol o bersonau (“Dosbarth P” a “Dosbarth Q”) sy’n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo sy’n gymwys i gael dyraniad o lety tai o dan Ddeddf 1996.

Mae “Dosbarth P” yn gymwys i bersonau sy’n ddioddefwyr cefnu ar briodas trawswladol, ac mae “Dosbarth Q” yn gymwys i bersonau y byddai amod NRPF yn gymwys fel arfer i’w caniatâd i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, ond mae’r amod hwnnw wedi ei ddileu gan y Swyddfa Gartref.

Mae rheoliad 6 yn diwygio rheoliad 5(1) o Reoliadau 2014 sy’n ymwneud â chymhwystra personau sy’n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo i gael cymorth tai o dan Ddeddf 2014. Mae’n rhagnodi dau ddosbarth ychwanegol o bersonau (“Dosbarth Q” a “Dosbarth R”) sy’n gymwys i gael cymorth o’r fath. Mae Dosbarth Q yn cyfateb i Ddosbarth P ac mae Dosbarth R yn cyfateb i Ddosbarth Q a fewnosodir gan reoliad 4.

Mae’r Rheoliadau yn cefnogi amcan Llywodraeth Cymru o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru drwy ei atal yn rhan fwyaf yr achosion a ble nad yw

hynny'n bosibl sicrhau ei fod yn beth prin a byrhoedlog, ac nad yw'n cael ei ailadrodd.

## 5. **Ymgynghori**

Gan fod y Rheoliadau yn darparu ar gyfer diwygiadau na fyddant ond yn effeithio ar nifer fach iawn o unigolion ac nad ydynt yn adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru, ni chafwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

## 6. Yr opsiynau

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried dau opsiwn i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu posibl y gallai dioddefwyr TMA a phobl sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo y byddai ganddynt NRPF fel arfer ei wynebu wrth gael gafael ar dai a chymorth tai.

- Opsiwn 1: Busnes fel Arfer – Gwneud dim byd
- Opsiwn 2 – Gwneud y ddeddfwriaeth (yr opsiwn a ffefrir)

Nid ydym wedi gallu nodi mathau amgen o ddeddfwriaeth, na dull anneddfwriaethol o fynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu pobl sydd wedi dioddef TMA a phobl sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo y byddai ganddynt NRPF fel arfer.

## 7. Costau a manteision

### Costau

Opsiwn 1: Busnes fel Arfer

Dyma'r opsiwn sylfaenol, felly nid oes unrhyw fanteision na chostau uniongyrchol ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, bydd hyn yn golygu nad yw cymhwystra yng Nghymru yn adlewyrchu naill ai'r cymhwystra yn Lloegr na'r diwygiadau diweddar a wnaed i'r Rheolau Mewnfudo mewn ymateb i heriau cyfreithiol llwyddiannus diweddar.

Opsiwn 2: Gwneud y Ddeddfwriaeth

Nid yw wedi bod yn bosibl cael data gan Lywodraeth y DU ynghylch nifer y bobl y gellid effeithio arnynt. Fodd bynnag, disgwylir mai nifer bach iawn fydd hwn. Ar hyn o bryd mae'n anodd cyfrifo amcangyfrifon manwl gywir oherwydd yr ansicrwydd ynghylch nifer y bobl y mae cefnu ar briodas trawswladol yn effeithio arnynt, a nifer y bobl y byddai ganddynt NRPF fel arfer a all ddod i Gymru.

Costau i Lywodraeth Cymru

Disgwylir i gostau Llywodraeth Cymru fod yn fach iawn ac ymwneud â hysbysu'r awdurdodau lleol a chyhoeddi canllawiau fel atodiad i Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014. Bydd y canllawiau yn esbonio'r newidiadau i'r rheoliadau.

Costau i awdurdodau lleol

Byddai cost ychwanegol i awdurdodau lleol pe bai unrhyw berson sydd wedi dioddef cefnu ar briodas trawswladol neu berson y byddai ganddo NRPF fel arfer yn gwneud cais am dai neu gymorth tai yng Nghymru a bod dyletswydd yn ddyledus i'r person hwnnw. Dim ond i garfan fach iawn o bobl y bydd y Rheoliadau hyn yn estyn cymhwystra. O ganlyniad, disgwylir i'r gost a osodir ar unrhyw awdurdod lleol yng

Nghymru, mewn perthynas â darparu tai neu gymorth tai pan fo dyletswydd yn ddyledus, fod yn eithriadol o isel.

Cyfrifodd y Memorandwm Esboniadol ar gyfer Deddf Tai (Cymru) 2014 y costau i awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaethau digartrefedd i geiswyr ar gyfer y cyfnod 2015-16. Mae'r costau hyn wedi eu huwchraddio i brisiau cyfredol i adlewyrchu chwyddiant yn y cyfamser ac fe'u defnyddir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn i amcangyfrif y gost y gallai awdurdod lleol fynd iddi pe bai unrhyw berson sydd wedi dioddef cefnu ar briodas trawswladol neu berson y byddai ganddo NRPF fel arfer yn gwneud cais am dai neu gymorth tai a bod dyletswydd yn ddyledus iddo.

Byddai darparu gwasanaethau digartrefedd yn cynnwys asesiad cychwynnol ar gyfer y ceiswyr hynny. Tybiwyd y byddai'r asesiad hwn yn costio £214.20 i unigolyn yr ystyriwyd ei fod "ddim yn ddigartref". Wrth gyflawni'r ddyletswydd atal fel y'i rhagnodwyd gan ddeddfwriaeth 2014, amcangyfrifwyd costau o £1,112 fesul cais.

Mae dyletswydd i leihau digartrefedd i geiswyr y mae atal yn methu neu y bernir eu bod yn ddigartref wrth ymgyflwyno. Tybir nad oes gan y ddyletswydd i leihau digartrefedd unrhyw gost ychwanegol i'r ceiswyr hynny sydd eisoes wedi bod drwy'r ddyletswydd atal.

Ar gyfer achosion pan na fo'r ddyletswydd i leihau digartrefedd yn llwyddiannus, bydd gan geiswyr a all gael eu hystyried yn "gymwys, yn ddigartref, ag angen blaenoriaethol ac yn ddigartref yn anfwriadol" ac y mae camau i leihau digartrefedd yn aflwyddiannus ar eu cyfer, hawl i gael cost dyletswydd lawn o £3,274 fesul ceisydd (£2,702.40 yn llai cost asesiad o £428.40).

Mae'r tabl isod yn cyflwyno amcangyfrif o'r gost pe bai 5-10 o bobl sydd wedi dioddef cefnu ar briodas trawswladol neu berson y byddai ganddo NRPF fel arfer yn gwneud cais am gymorth tai a bod dyletswydd yn ddyledus iddynt neu iddo. Mae'r ffigurau amcangyfrifedig yn adlewyrchu'r senario gwaethaf, er nad yw senario o'r fath yn cael ei ystyried yn debygol.

| | 5 ceisydd | 10 ceisydd |
|---|---|---|
| £428.40 fesul ceisydd "anghymwys" | £2,142 | £4,284 |
| £214.20 fesul ceisydd yr ystyrir ei fod "ddim yn ddigartref" | £1,071 | £2,142 |
| £1,112 fesul ceisydd sy'n gymwys am gymorth yn unol â'r ddyletswydd atal | £5,560 | £11,120 |
| £2,274 fesul ceisydd y gellir ei ystyried yn "gymwys, yn ddigartref, ag angen blaenoriaethol ac yn ddigartref yn anfwriadol" | £11,370 | £22,740 |

Pe bai dioddefwr cefnu ar briodas trawswladol neu berson y byddai ganddo NRPF fel arfer yn gwneud cais am dai cymdeithasol, yna byddai'r costau i awdurdod lleol yn is. Yn seiliedig ar amcangyfrifon cyffredinol a gyfrifwyd drwy adolygu data rheoli, mae cydweithwyr awdurdod lleol wedi nodi y byddai prosesu cais am dŷ yn costio £400-£800. Os yw'r un nifer o geisiadau am dai cymdeithasol yn cael ei wneud ag ar gyfer cymorth tai (5-10 ceisydd ledled Cymru), gallai'r cyfanswm cost i awdurdodau lleol amrywio rhwng £2000 ac £8000.

Ni fu modd ceisio rhagamcanu i'r dyfodol unrhyw batrwm canfyddadwy o dwf neu ddirywiad yn nifer y bobl a all fod yn ddioddefwyr cefnu ar briodas trawswladol neu bersonau y byddai ganddynt NRPF fel arfer, yn enwedig gan fod y niferoedd mor isel. Am y rheswm hwn, nid ydym wedi darparu ystod o ffigurau dros linell amser sy'n ymestyn y tu hwnt i'r senario uchod gan y byddai'n hynod dybiannol ac yn gamarweiniol yn ôl pob tebyg.

Ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth gael effaith sylweddol ar fusnesau preifat na sefydliadau'r trydydd sector.

**Manteision**

Bydd y diwygiadau i Reoliadau 2014, sy'n estyn y cymhwystra i dai a chymorth digartrefedd i bobl sydd wedi dioddef cefnu ar briodas trawswladol a phobl y byddai amod NRPF fel arfer yn gymwys i'w caniatâd mewnfudo ond mae'r amod hwnnw wedi ei ddileu, yn helpu i ddileu anfantais y byddai pobl yn ei hwynebu o gymharu â'r rhai mewn amgylchiadau tebyg, er enghraifft pobl sy'n cael lloches. Er bod y garfan yn fach, heb unrhyw bersonau o bosibl yn dod i Gymru sydd angen tai a chymorth tai, bydd y newid a wneir yn gosod esiampl i rannau eraill o'r byd lle mae gan y garfan hon o bobl lai o hawliau. Bydd gwneud hynny yn gwella enw da Cymru fel gwlad ddiogel a chroesawgar i'r rhai llai ffodus a heb gartref.

## 8. Asesu'r Gystadleuaeth

Amherthnasol.

## 9. Adolygiad ar ôl gweithredu

Amherthnasol.